Brake Kids Walk with Shaun the Sheep

# Gwasanaeth – Trosolwg

**Diolch am gymryd rhan mewn Brake's Kids Walk gyda Shaun the Sheep ac am helpu plant i ymgyrchu dros eu hawl i deithio'n ddiogel ac yn iach. Mae Brake's Kids Walk yn gyfle gwych i ennyn diddordeb a chyfranogiad plant o bob oedran yn y materion diogelwch ar y ffyrdd sy'n effeithio arnyn nhw.**

**Yn Brake, rydym ni'n credu bod gan bob plentyn yr hawl i allu cerdded yn eu cymunedau heb ofn traffig a llygredd. Mae perygl traffig yn ffactor mawr o ran a yw teuluoedd yn gallu cerdded yn ddiogel yn y mannau lle maent yn byw. Mae'n effeithio ar eu gallu i fod yn iach ac yn weithgar yn gymdeithasol. Mae plant o bob oed mewn perygl o gael eu hanafu neu eu lladd wrth gerdded wrth ymyl ffyrdd.**

**Yn 2021, cafodd 809 o blant rhwng 5 ac 11 oed eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Prydain; roedd 518 ohonynt yn gerddwyr. Ar gyfartaledd, caiff chwe phlentyn eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Prydain bob dydd.[1]**

**Er mwyn i blant allu cerdded yn ddiogel yn eu cymunedau, mae angen i'w teithiau fod yn ddiogel. Mae angen llwybrau troed, llwybrau beicio, mannau diogel i groesi, traffig araf a thraffig glân arnynt fel y gallant gerdded i'r ysgol, adref, ac i'r siopau, neu ymweld â ffrindiau a theulu, heb ofni cael eu lladd na'u brifo ar y ffyrdd.**

Mae angen mawr i bawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc addysgu negeseuon diogelwch ar y ffyrdd clir yn effeithiol ac yn gyson, gan weithio ar y cyd i'w helpu i ddeall a rheoli risg yn well.

I'ch helpu chi i drafod Brake's Kids Walk â'ch disgyblion chi, rydym ni wedi paratoi amlinelliad o gyflwyniad gwasanaeth sy'n amlinellu pwysigrwydd rhai o'r prif faterion diogelwch ar y ffyrdd sy'n effeithio ar blant a'u teuluoedd, yn ogystal â hyrwyddo manteision cerdded. Mae'r gweithgareddau amser gwasanaeth hyn yn ffordd ddelfrydol o gyflwyno Brake's Kids Walk ac addysg diogelwch ar y ffyrdd i ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed yn eich ysgol chi.

Rydym ni'n awgrymu eich bod chi'n cynnal gwasanaeth i gyflwyno Brake's Kids Walk tuag wythnos cyn y daith gerdded ei hun, i ennyn diddordeb y plant yn y digwyddiad a'u hannog i'w thrafod â'u ffrindiau a'u teuluoedd. Fel arall, gallech chi ddod â'r ysgol gyfan ynghyd yn fuan cyn y daith ei hun i danio brwdfrydedd a sicrhau bod y negeseuon allweddol ym mlaen meddyliau pawb.

Mae'r cyflwyniad PowerPoint yn trafod y manteision iechyd ac achub y blaned mae cerdded yn eu cynnig ac yn amlygu pwysigrwydd pump peth allweddol y mae angen ar bob plentyn er mwyn cerdded yn ddiogel yn eu cymunedau: **llwybrau cerdded, llwybrau beicio, mannau diogel i groesi, traffig araf a thraffig glân**. Mae hefyd yn trafod y pethau y bydd eich ysgol yn eu gwneud drwy gymryd rhan yn Brake's Kids Walk, a bydd yn eich helpu i siarad â phlant am fod yn rhan o ymgyrch diogelwch ar y ffyrdd.

Mae eich pecyn gweithredu Brake's Kids Walk yn cynnwys llu o adnoddau eraill i'ch helpu i gymryd rhan yn y daith gerdded, gan gynnwys cynlluniau gwersi i'ch galluogi i gysylltu'ch addysgu gyda rhai o brif negeseuon Brake's Kids Walk.

### Nodyn am sensitifrwydd

Dylid bod yn ofalus wrth drafod diogelwch ar y ffyrdd. Os ydych chi'n ymwybodol bod damwain ffordd wedi effeithio ar ddisgybl, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, siaradwch ag ef a'u rhiant neu ofalwr cyn ei gynnwys mewn unrhyw un o weithgareddau Brake's Kids Walk. Ystyriwch anghenion yr holl blant wrth gynllunio eich gweithgareddau a chynnal asesiadau risg.

www.brake.org.uk/kidswalk

1. Yr Adran Drafnidiaeth (2022) Reported Road Casualties in Great Britain: Annual Report 2021, and supporting data sets

Trefnir gan Brake the road safety charity

Noddir gan esure

AARDMAN, SHAUN THE SHEEP AND SHAUN'S IMAGE ARE TRADE MARKS OF AARDMAN ANIMATIONS LIMITED 2023. ALL RIGHTS RESERVED.

© BRAKE 2023